# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 2023

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 21 o Fehefin, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Canolfan Kate Roberts, Cae Gors** |
| **CADEIRYDD** | **Arwyn Herald Roberts** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd AHR pawb i'r cyfarfod.<br><br>**Yn bresennol heno roedd:**<br>Michelle Williams **(MW);** Nerys Evans **(NE);** Gwilym Williams **(GLW)**; Gwilym Thomas **(GVT)**; Cyng. Huw Rowlands **(HR)**; Tom Ellis **(TE)**; Adam Summers **(AS)**; Nia Griffiths **(NG)** ac Gillian Thomas **(y Clerc).** |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:**<br>Jason Hunt **(JH);** Dafydd Wyn Jones **(DWJ);** Aeron Maldwyn Jones **(AMJ).** |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Dim |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION MAI 2023 A MATERION YN CODI** |
| | Cynigwyd cofnodion Mai 2023 yn gywir gan GVT gydag GW yn eilio.<br><br>**a) MEINCIAU GLAN RHYD A SGWÂR RHOSTRYFAN**<br>Rhannwyd lluniau oedd wedi ei derbyn gan HR, cytunwyd mai dim ond cot o baent oedd ei angen i'r meinciau. Ac wyneb newydd a phaent i hysbysfwrdd Rhosisaf.<br><br>**b) GW– RHWYSTRAU AR LWYBR CYHOEDDUS O FRYN BACH I FRITHDIR RHOSGADFAN**<br>Ar raglen waith y Swyddog Llwybrau i ymweld y safle gyda chydweithiwr.<br><br>**c) CAMFEYDD LLWYBR 161 WAEN BANT**<br>Ar raglen waith y Swyddog Llwybrau.<br><br>**d) TE - CAIS AM SAFLE BWS I LANWNDA**<br>Derbyniwyd gohebiaeth yn adrodd yn anffodus, nid oes cyllideb gan y Cyngor Sir i brynu a gosod cysodfannau bws ar hyn o bryd.<br>Rhoddwyd caniatâd i'r Cyngor Cymuned osod lloches ei hun fel mae Cynghorau Cymuned eraill wedi gwneud. Tom Ellis I gyflwyno tystiolaeth o'r angen.<br><br>**e) AHR - ABER ALAW A THAI FFRIDD**<br>Adroddodd AHR bod y Cyngor wedi ymweld a thacluso ychydig, wedi torri sleisen o'r garreg, roedd ar ddallt fod y garreg wedi sodli yn ddwfn. Bydd yn adrodd Archwiliad Adran Amgylchedd mewn da bryd.<br>Wedi gofyn am arwydd 'give way', asesiad heb ei gyflawni hyd yn hyn. |

| | |
|---|---|
| 5. | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **Rhif Cais: C23/0431/24/DT - Bont Faen Ffordd Saron, Llanfaglan, Caernarfon, Gwynedd, LL54 5RB**<br>Estyniad cefn uwchben to fflat presennol ynghyd a gwaith ailwampio a newidiadau i'r eiddo presennol<br><br>Dilyn a Darganfod<br><br>Dim gwrthwynebiad |
| 6. | **MATERION MISOL** |
| | **a) SEDD WAG RHOSTRYFAN**<br>Derbyniwyd gohebiaeth gan Dafydd Wyn Jones yn hysbysebu ei fwriad i ymddiswyddo o'i sedd yn cynrychioli ardal Rhostryfan. Y clerc i weithredu Etholiad gyda'r Cyngor Sir.<br><br>**b) ASESIAD RISG CAEAU CHWARAE RHOSTRYFAN A RHOSGADFAN**<br>Cwblhawyd yr asesiad popeth mewn cyflwr derbyniol –<br><br>Argymhellion Rhosgadfan - cyflwr y tir - wedi gyrru blaen I Dylan Humphreys<br>Adroddodd AHR ei fod yn bwriadu cynnal cyfarfod cyhoeddus yn y pentref i drafod dyfodol y cae chwarae gan nad oes Pwyllgor Cae Chwarae bellach yn bodoli.<br>Rhannodd yr aelodau bryderon am gyfrif y cae chwarae hwn.<br>Y clerc i holi'r ymddiriedolwr am reolau prydlesu i'r Cyngor.<br><br>Argymhellion Rhostryfan - Dim modd gweld cyflwr y gadwyn ar y swing.<br>Y clerc i gadarnhau cyfrifoldebau'r Cyngor ar y safle<br><br>**c) MYNWENT CEFNFAES - ESTYNIAD - GORFFWYSER PLANT**<br><br>**Torri Coed lawr ochor yr estyniad -** Cynigiodd MW dderbyn dyfynbris Cwmni Cefn Gwlad am £500:00 i baratoi'r Gwaith eiliodd GVT a chytunodd pawb<br><br>**Ffens rownd yr estyniad –**<br>Cynigiodd GVT dderbyn dyfynbris North Wales Ffencing am £ 11,414.00 + vat i ddarparu a gosod ffens gadwyn alfanedig 1500mm o uchder ar byst adran blychau galfanedig wedi'u cloddio a'u gosod mewn sylfaen goncrit. Rhwydo i fod o wifren alfanedig 3mm cryf , eiliodd AS a chytunodd pawb.<br><br>**Ffens Gorffwyser plant -** Bydd y gwaith yn cael ei gynnal at ddiwedd fis nesaf<br><br>Adroddodd AHR bod y fynwent angen ei dorri yn yr wythnos nesaf - y clerc i drefnu.<br>Cytunwyd gofyn am doriad pob tair wythnos yn y cyfnod tyfu.<br><br>**d) LLWYBR BRYNGWYN - POSTIAU WEDI PYDRU**<br>Y clerc i rannu copïau o'r gwaith gwreiddiol<br><br>**e) HYFFORDDIANT**<br>Adroddodd y clerc bod Cyngor Cymuned Pistyll bellach wedi cyflwyno'r cais a eiliwyd gan y Cyngor am hyfforddiant Gymraeg I Gyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru. Bydd rhaid i'r cais gael ei dderbyn gan banel yn gyntaf - bydd penderfyniad diwedd y mis.<br><br>**f) GVT - CAIS AM WYBODAETH PARTHED BWRIAD I SEFYDLU CAE CHWARAE YN NINAS**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn gwybodaeth gan Gwmni Adref yn cadarnhau eu bod wedi ymrwymo i roi lle chwarae i mewn fel rhan o gais cynllunio gwedd 2 Gwêl y Foel.<br><br>Bu i Adra gyflwyno cais cynllunio ar gyfer gwedd 2 nol yn Ionawr 2021 – a does dal dim dyfarniad wedi bod. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r busnes phosphates a gwrthwynebiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru dal yn bodoli ar y safle, yma ac felly dim math o ddyddiad ar gyfer unrhyw fath o ddatrysiad i'r sefyllfa.<br><br>Nid oedd yr aelodau yn derbyn y wybodaeth ac yn bendant mae gyda Gwedd 1 oedd y cais Cynllunio am gae chwarae wedi ei wneud. Y clerc i ofyn am eglurhad bellach.<br>Rhannodd GVT bryderon am y tir oedd wedi ei glustnodi fel cae chware a diogelwch y plant ar y safle. |
| 7. | **ADRODDIADAU** |
| | **CYNG. HUW ROWLANDS**<br><br>• Adroddodd HR bydd baneri a bunting ar gyfer yr Eisteddfod yn cael eu derbyn yn fuan.<br><br>• Ysgol Felin Wnda - bydd penderfyniad am ddyfodol yr Ysgol yn cael ei wneud fis Medi<br>Gwaith astudio'r dalgylch ar y gweill.<br><br>• Cwyn wedi ei wneud yn adrodd angen am waith clytio'r ffordd o Ddinas I Saron - nid oedd ymateb wedi ei dderbyn hyd yn hyn.<br><br>• Wedi gofyn i'r Cyngor Sir wneud asesiad am lwybr I Ysgol Rhostryfan o'r maes parcio.<br><br>• Wedi cwyno am gasgliadau sbwriel ac ailgylchu.<br><br>**CYNG. ARWYN HERALD ROBERTS**<br><br>• Roedd AHR wedi cyflwyno cwyn am gyflwr y lon a'r palmant ym Mro Cadfan<br>Roedd dau blentyn wedi brifo yn ddiweddar o ganlyniad cyflwr y lon– nid oedd wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. Bydd yn ei godi hefo Aelod y Cabinet a Phwyllgor Craffu<br><br>• Lon heibio Dreflan – disgwyl diweddariad pryd fydd y Gwaith ail wynebu yn cychwyn<br><br>• Biniau baw ci wedi ei gosod ger Ael y Bryn, Muriau a Tan Rallt - bagiau ganddo i'r gymuned<br><br>• Cwynion wedi eu gosod am ordyfiant, goleuadau a gwasanaeth bws<br><br>• Dal i ddisgwyl diweddariad a rhaglen waith parthed y gridiau gwartheg yn y gymuned<br><br>• Bydd y Cyngor yn archwilio cyflwr y lonydd yn fuan<br><br>• Cwynion wedi ei gwneud am y gwasanaeth ail gylchu yn broblem – esboniad am salwch ac ail sefydlu'r adran wedi ei dderbyn. Hefyd gorweithio wedi bod yn broblem hefo'r undebau. |
| 8. | **MATERION ARIANNOL** |
| | **a) CYSONIAD**<br>Cymeradwywyd y Cysoniad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **28.03.23** | **CYFRIF CYFREDOL** | | **£10,620.60** |
| **29.03.23** | **CYFRIF CADW** | **+** | **£63,581.85** |
| **01.04.23** | **TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | **-** | **£1,190.00** |
| **2023/2024** | **GWARGED** | **+** | **£2,004.92** |
| | | **=** | **£75,017.37** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CADW - 25 o Ebrill i 29 o Fai 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£63,581.85** |
| Derbyniadau | + | £0.00 |
| Gwariant | - | £0.00 |
| Balans Cau | = | **£63,581.85** |

**CYFRIF CYFREDOL - 29 o Ebrill i 28 o Fai 2023**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £17,556.92 |
| Derbyniadau | + | £0.00 |
| Gwariant | - | £4,463.90 |
| Balans Cau | = | **£13,093.02** |

**CYFANSWM Y DDAU GYFRIF** = **£76,674.87**

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR Y DATGANIADAU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.04.23 | Cylch Meithrin, Llanwnda | **101696** | £300.00 |
| 19.04.23 | Papur Bro Lleu | **101700** | £400.00 |
| 19.04.23 | TCDLL | **101704** | £100.00 |
| | | = | **£800.00** |

**LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO 21.06.23**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 21.06.23 | Cyflog a Threuliau Clerc | **101705** | £656.50 |
| 21.06.23 | ROSPA Play Safety | **101706** | £201.00 |
| | | = | **£857.50** |

**CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** = **£75,017.37**

9. **GOHEBIAETH**

**a) GERDDI AM DDIM GAN LLEOEDD LLEOL AR GYFER NATUR**
Ni dderbyniwyd sylwadau I'w gweithredu

**b) SWYDDOG CEFNOGI CYMUNEDAU / CRONFEYDD CEFNOGI SPF - GRANTIAU CIST GWYNEDD**
Ni dderbyniwyd sylwadau I'w gweithredu

**c) CAIS AM WYBODAETH PARTHED ALLOTMENT YN RHOSTRYFAN**
Y mater bellach wedi ei ddatrus

**d) CAIS I DORRI GWAIR LLWYBRAU RHOSTRYFAN**
Y clerc wedi ei yrru blaen i'r darparwr

**e) AGOR CRONFEYDD CEFNOGI SPF**
Ni dderbyniwyd sylwadau I'w gweithredu

**f) CYNHADLEDD ARFER ARLOESOL UN LLAIS CYMRU - WYNEBU HERIAU DYFODOL DYRYS 05/07/23**
Ni dderbyniwyd sylwadau I'w gweithredu

| | |
|---|---|
| | **g)** **BWLETIN NEWID HINSAWDD – UN LLAIS CYMRU**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau I'w gweithredu |
| 10. | **MATERION LLEOL / AELODAU** |
| | **a)** **GVT – ARWYDD CAE CHWARAE RHOSGADFAN**<br>I'w drafod eto<br><br>**b)** **CWYN AM GARAFÁN WEDI EI SEFYDLU HEB GANIATÂD -**<br>Adroddodd AHR bod hawl gan y perchennog ei lleoli ar gyfer lles ei hun<br><br>**c)** **NE– MEINCIAU STESION RHOSTRYFAN**<br>Y clerc I ail holi am gostau |
| 11. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 19 o Orffennaf - Canolfan Kate Roberts, Rhosgadfan |